


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Gorffennaf 12 2022

Presennol :- Cynghorwyr :- Alwyn Gruffydd, Selwyn Griffiths, Gwilym Jones, Aled Griffith, Dr Melfyn Edwards, Sandra Bodden Jones, Carol Hayes , Michael Roberts, Llywelyn Rhys (Cadeirydd)
Marian Roberts (Clerc)

70.7.22 Ymddiheuriadau :- Cynghorwyr:- Llinos Murphy, Keith Roberts

71.7.22 Adroddiad y Cadeirydd.

Dechreuodd y Cadeirydd drwy groesawu pawb i'r cyfarfod gyda chroeso arbennig i'r aelodau newydd – y Cynghorwyr Sandra Bodden Jones, Michael Roberts a Dr Melfyn Edwards. Roedd yn dymuno'n dda iddynt ac yn gobeithio y byddant yn dod i ymdopi gyda gweithdrefnau a threfn y cyfarfodydd ac yn ymgartrefu yn fuan iawn yn y Cyngor Tref. Cyfeiriodd at Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd a gynhaliwyd ar Fehefin 25 yn Ysgol Eifionydd. Roedd wedi bod yn ddiwrnod llwyddiannus a oedd wedi denu llawer i dref Porthmadog ar gyfer yr achlysur. Roedd yn siomedig na chafwyd gorymdaith na seremoni awyr agored yn y Parc oherwydd y tywydd garw ond roedd yn cydymdeimlo â sefyllfa'r trefnwyr. Dim ond wythnos sydd i fynd hyd nes bod ysgolion yn cau ar gyfer gwyliau'r haf a disgwylir unwaith eto lu o ymwelwyr i'r ardal i ychwanegu at y prysurdeb arferol ond sydd yn gymaint o hwb i economi'r ardal. Roedd yn dymuno'n dda i'r Cynghorwyr dros yr haf pan gânt gyfle i orffwys cyn dychwelyd i'w dyletswyddau ym mis Medi.

73.7.22 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Mehefin 14 2022

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

74.7.22 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cyng Llywelyn Rhys :- Gohebiaeth rhif 34 – Cyfoeth Naturiol Cymru

75.7.22 Materion i'w dwyn gerbron :-

➤ **Ethol aelodau o'r Pwyllgorau canlynol am y flwyddyn 2022/2023**

Etholwyd aelodau o'r Pwyllgorau canlynol am y flwyddyn 2022/2023 fel a ganlyn :-

1. Pwyllgor Cyllid / Pwyllgor Datblygu ac Eiddo

Cadeirydd y Cyngor	-	Cynghorydd Llywelyn Rhys
Is-Gadeirydd y Cyngor	-	Cynghorydd Selwyn Griffiths
Ward Ddwyreiniol	-	Cynghorydd Llinos Murphy
Ward Gest	-	Cynghorydd Dr Melfyn Edwards
Ward Ynys Galch	-	Cynghorydd Keith Roberts

Ward Tremadog	-	Cynghorydd Aled Griffith
Ward Morfa Bychan	-	Cynghorydd Gwilym Jones
Ward Gorllewin	-	Cynghorydd Michael Roberts

2. Etholwyd cynrychiolwyr ar bwyllgorau allanol am 2022/ 2023 fel a ganlyn :-

Is Bwyllgor Harbwr Porthmadog	-	Cadeirydd y Cyngor Cynghorydd Llywelyn Rhys
Ymddiriedolaeth Rebecca Y Ganolfan	-	Cyng. Gwilym Jones Cyng. Selwyn Griffiths (aros i gael Pwyllgor Llawn cyn ethol ail gynrychiolydd)
Amgueddfa Forwrol Porthmadog	-	Cynghorydd Carol Hayes
Clwb Chwaraeon Madog	-	Cynghorydd Alwyn Gruffydd
Y Ganolfan Gyngori (Cangen Caernarfon)	-	Cynghorydd Selwyn Griffiths
Pwyllgor Ymgyrch Ysbyty	-	Dim yn bodoli mwyach
Grŵp Mynediad Dwyfor	-	Dim yn bodoli mwyach
Caru Port	-	Cynghorwyr Selwyn Griffiths a Michael Roberts
Pwyllgor Efeillio	-	Cynghorydd Alwyn Gruffydd
Pwyllgor Adran Dwyfor (Un Llais Cymru)	-	Cynghorydd Alwyn Gruffydd Cynghorydd Carol Hayes

3. Gweithgor Datblygu : Etholwyd cynrychiolwyr am 2022/ 2023 fel a ganlyn :-

Cadeirydd – Cynghorydd Selwyn Griffiths
Cynghorydd Gwilym Jones
Cynghorydd Aled Griffith
Cynghorydd Llinos Murphy
Cynghorydd Dr Melfyn Edwards
Cynghorydd Keith Roberts

76.7.22 Cyng Alwyn Gruffydd :- Cynnig gweithredu i ddatrys yr anniddigrwydd ynglyn â'r ddarpariaeth feddygol yn ardal Porthmadog. (gweler Gohebiaeth 8)

Roedd Cyng Alwyn Gruffydd a Cyng Gwilym Jones wedi cael cyfarfod yn ddiweddar gyda swyddogion Awdurdod Iechyd Betsi Cadwaladr lle trafodwyd y posibilrwydd o sefydlu Grwp Cleifion ar gyfer dalgyllch Hwb Iechyd Eifionydd. Mae hyn yn rhywbeth sydd yn digwydd eisoes mewn Awdurdodau Iechyd yn Lloegr ac yn cael ei groesawu fel cyfrwng i basio pryderon ymlaen o'r cyhoedd yn uniongyrchol i'r Awdurdod Iechyd. Y cam cyntaf fyddai yngyngori efo rheolwr Hwb Iechyd Eifionydd, Sioned Tomos, i weld os fyddai'r practis yn cytuno i hyn. Wedyn byddai'n rhaid cael cynrychiolwyr o bob Cyngor Cymuned yn y dalgyllch i fod yn rhan o'r Grwp Cleifion. Byddai unrhyw bryderon a dderbynir gan y Cynghorau Cymuned gan y cyhoedd am y Gwasanaeth Iechyd lleol wedyn yn cael eu pasio ymlaen i'r Grwp Cleifion. Y cam cyntaf fyddai i reolwr Hwb Iechyd Eifionydd, Sioned Tomos gysylltu â'r Cynghorau Cymuned eraill o fewn y dalgyllch i wyntyllu'r syniad o sefydlu'r Grwp Cleifion cyn gweithredu ymhellach.

Penderfynwyd :- y Clerc i ysgrifennu at reolwr Hwb Iechyd Eifionydd, Sioned Tomos, i drosglwyddo 'r wybodaeth uchod ac i ofyn iddi hi gysylltu â'r Cynghorau Cymuned eraill o fewn y dalgyllch i wyntyllu'r syniad o sefydlu'r Grwp Cleifion.

77.7.22 Cyng Aled Griffith :- Cynnig ysgrifennu at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i wneud cais am berson i ysgubo'r lôn i lanhau strydoedd Porthmadog a Thremadog yn ddyddiol.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio gan ychwanegu gofyn beth yw'r trefniadau presennol ar gyfer gwasanaeth y peiriant glanhau strydoedd a gofyn am wasanaeth hafal i bob rhan o ardal Porthmadog.

78.7.22 Cyng Aled Griffith :- Cynnig – gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd i osod giât ar y fynedfa tir sydd wrth ochr Llyn Bach / tu ôl i Wilkos i atal mynediad i gerbydau.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

79.7.22 Cyng Aled Griffith :- Cynnig ysgrifennu at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt weithredu i osod y cyfyngiadau canlynol :-

1. Arwyddion cyflymder ar fynedfa i mewn o Borthmadog a symud yr arwyddion yn agosach i Gapel Peniel.
2. Ynys groesi ar y fynedfa i'r pentref o gyfeiriad Porthmadog i atal goddiweddyd ar y ffordd i mewn ac allan o'r pentref.
3. Newid cyflymder y pentref i 20 m.y.a.
4. Paentio stripiau 'rumble strips' a chyflymdra ar draws y dair fynedfa i'r pentref
5. Llinellau melyn dwbwl ar fynedfeydd e.e.. Stad Isgraig, Eglwys Santes Fair.
6. Cyrbio o gwmpas ynys hanesyddol Y Sgwâr i atal parcio ac i leihau peryglon i gerddwyr/gyrrwyr eraill.
7. Arwyddion i atal lorïau trymion rhag teithio drwy'r pentref onibai am ddadlwytho.

Dangoswyd lluniau ar y sgrîn fel tystiolaeth o'r sefyllfa parcio difrifol yn Nhremadog ddydd a nos. Cytunwyd i ddileu pwynt rhif 7 ac ychwanegu'r pwynt nad yw'r arwydd fflachio tu allan i Ysgol y Gorlan yn gweithio.

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnig Cyng Aled Griffith gan gynnwys y newidiadau uchod a derbyn gwelliant Cyng Selwyn Griffiths i ofyn am gyfarfod safle rhwng Cynghorwyr Tremadog â swyddogion perthnasol Cyngor Gwynedd i geisio datrys y sefyllfa.

80.7.22 Cyng Selwyn Griffiths :- Cynnig cysylltu â Chyngor Gwynedd yn gofyn iddynt ddarparu un man parcio anabl yn Bank Place ym mhen agosaf i'r post/fferyllfa o'r lleoliad presennol yn dilyn y drefn newydd o ofyn i'r cyhoedd gasglu eu moddion o'r fferyllfa.

Penderfynwyd :- derbyn gwelliant Cyng Michael Roberts i osod man parcio anabl hefyd ar y Stryd Fawr y tu allan i'r Swyddfa Bost, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

81.7.22 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Medi 13 2022 = Medi 3 2022 , (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)

- **Cyng Selwyn Griffiths:-** Cymeradwyo penderfyniad yr Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 26.7.22 ar wariant goleuadau Nadolig 2022 .
- **Cyng Alwyn Gruffydd :-** gweithredu i ail-sefydlu'r Clwb Ieuenctid

82.7.22 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Gwelwyd fod y mwyafrif o'r llythyrau i swyddogion Cyngor Gwynedd bellach wedi eu hateb yn dilyn gweithredu ar benderfyniad 50.6.22.

Penderfynwyd :- y Clerc i fynd ar ôl Rod Taylor, Betsi Cadwaladr i ymateb i lythyr 170.11.21 yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

Gohebiaeth :

83.7.22 RACHEL CARTER – UN LLAIS CYMRU, Cynllun grant Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Penderfynwyd :- pasio'r llythyr ymlaen i sylw'r Is-Bwyllgor Eiddo.

84.7.22 BETSAN MOSES, Ymateb i 26.5.22 Seremoni Cyhoeddi

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

85.7.22 ANDY EVANS, Mannau gwefru ceir trydan

Nodwyd fod Cyngor Gwynedd yn y broses o osod manau gwefru ym maes parcio'r Stesion ; fod dau fan gwefru araf yn Tesco a bod cynlluniau ar y gweill i gael manau gwefru sydyn ym maes parcio Llyn Bach.

Penderfynwyd :- ysgrifennu i drosglwyddo'r wybodaeth uchod i Andy Evans; ysgrifennu i Gyngor Gwynedd i ofyn am fannau gwefru ychwanegol ym maes parcio Heol y Parc ac i holi beth fydd capasiti'r manau gwefru wrth y Stesion, yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

86.7.22 HYWYN WILLIAMS, Cae Chwarae Bodawen

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

87.7.22 SARAH COLLICK, Cae Chwarae Bodawen

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

88.7.22 UN LLAIS CYMRU, Cyllid Coedwig Genedlaethol i Gymru

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn:-

- beth yw eu cynlluniau ar gyfer coedwig y Nyrseri?
- ydyn nhw'n manteisio ar gyllid Coedwig Cenedlaethol Cymru i ddatblygu'r safle?
- oes unrhyw wybodaeth ar gael ynglyn â'r cyfarfodydd diweddar a gynhaliwyd yno?

yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

89.7.22 UN LLAIS CYMRU, Pecyn Cymorth Cyllid

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

90.7.22 UN LLAIS CYMRU, Y Pecyn Cymorth

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

91.7.22 UN LLAIS CYMRU, Y Pecyn Cymorth (copi electronig yn unig 102 tudalen)

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

92.7.22 REBECCA EVANS, Gweinidog Cyllid – Y Pecyn Cymorth

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

93.7.22 ELUNED MORGAN, Ymateb i 341.4.22 diffyg deintyddion (ers 14.6.22)

Penderfynwyd :- ateb y llythyr i fynegi siom yn yr ymateb ac yn y ffaith nad oes cynllun pendant ar gael ar gyfer datblygu gwell gwasanaeth deintyddol am ddim yn yr ardal yn enwedig o ystyried y wasgfa ariannol bresennol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

94.7.22 STEFFAN JONES., Ymateb i 304.3.22 gosod tybiau blodau

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a symud ymlaen i holi am brisiau 3 set o dybiau blodau i Stryd Fawr Porthmadog a gofyn caniatâd Steffan Jones i osod 2 dwb blodau yn Nhremadog, yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

95.7.22 STEFFAN JONES., Ymateb i 46.6.22 Draeniau wedi blocio

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

96.7.22 STEFFAN JONES , Ymateb i 41.6.22 symud mainc Glenda Burke

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

97.7.22 STEFFAN JONES , Ymateb i 42.6.22 cyflymdra'r Cob

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

98.7.22 STEFFAN JONES , Ymateb i 48.6.22 mynwent Penamser

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

99.7.22 STEFFAN JONES , Ymateb i 299.3.22 llwybr Melin yr Wyddfa a Llyn Bach

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

100.7.22 AWEN BAYLEY, Ymateb i ffrwd o ebyst 20.6.22am lendid toiledau'r Parc

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a pharhau i fonitro'r sefyllfa.

101.7.22 AWEN BAYLEY, Ymateb i 43.6.22 –chwyn ar y stryd

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

102.7.22 STEFFAN JONES, Ymateb i 13.5.22 – mainc Cob Crwn

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

103.7.22 SION BRYN ROBERTS, Ymateb i 263.2.22 – Clwb Ieuenctid

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a gadael y mater ar y bwrdd i'w drafod yng nghyfarfod mis Medi yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd.

104.7.22 RHIAN WYN WILLIAMS, Ymateb i 17.5.22 – trwsio lloches bws y stesion

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i :-

- ddiolch yn fawr i Gyngor Gwynedd am drwsio'r difrod yn y lloches bws
- ddweud mai nid Cyngor Tref Porthmadog sydd yn gyfrifol am loches bws y Stesion
- ofyn,er eglurder, pwy sy'n gyfrifol am y llochesi bws sydd wedi cael eu ariannu gan Lywodraeth Cymru

yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Aled Griffith yn eilio.

105.7.22 OPENREACH, Ymateb i 44.6.22 – polyn ar y stryd

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

106.7.22 SARAH COLLICK, Ymateb i alwad ffôn ar 21.6.22 am fwy o fanylion parthed mater 54.6.22

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

107.7.22 BARRY DAVIES C.G., Ymateb i 45.6.22 Baner Las Morfa Bychan

Mynegwyd pryderon ynglyn â safon cyffredinol traeth Morfa Bychan a chafwyd sawl awgrym ar gyfer gwelliannau.

Penderfynwyd :- ysgrifennu'n ôl at Barry Davies yn nodi'r pwyntiau isod:-

- Fod y Cyngor Tref yn rhannu siom Barry Davies am na chafodd traeth Morfa Bychan y Faner Las
- Fod angen mwy o finiau ar y traeth.
- Gofyn iddo sut y gall gyfiawnhau ei frawddeg "...mae safon ein traethau heddiw llawer gwell na oedd ein safonau yn y gorffennol."
- Fod y traeth yn adnodd bwysig iawn i'r ardal a dylid ceisio bob ffordd i wella'r cyfleusterau yno
- Fod angen manteisio ar y dechnoleg 4G sydd ar gael ar y safle i hwyluso taliadau electroneg i gael mynediad i'r traeth gan fod rhai modurwyr yn cael eu troi'n ôl am nad oes ganddynt arian parod.
- Fod angen mwy o doiledau ar y traeth – oes modd gosod rhai dros-dro yno dros dymor yr haf?

➤ Oes modd sicrhau fod y toiled ar Lôn Gwydryn yn agored i'r cyhoedd? yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng Aled Griffith yn eilio.

108.7.22 CYNGOR GWYNEDD, Ymgynghori ar Gynllun Hawliau Tramwy

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

109.7.22 LOWRI MORRIS , Gofyn caniatâd i ddefnyddio Cae Chwarae Bodawen

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

110.7.22 MAI BERE, Llythyr diolch gan yr Eisteddfod

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

111.7.22 KEIRA SWEENIE, Ymateb i 29.5.22 The Port – Cynllunio

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth gan fod y mater bellach yn un cyfreithiol a thu hwnt i awdurdod y Cyngor Tref.

112.7.22 ANEURIN MON PARRY C.G., Ymateb i 301.3.22 Tŷ Clyd, Borth y Gest

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth gan fod y mater bellach yn un cyfreithiol a thu hwnt i awdurdod y Cyngor Tref.

113.7.22 ANEURIN MON PARRY C.G., Ymateb i 196.12.21 Cors Borth y Gest

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth gan fod y mater bellach yn un cyfreithiol a thu hwnt i awdurdod y Cyngor Tref.

114.7.22 CYNG ALED GRIFFITH, Lluniau parcio Tremadog

Wedi trafod y lluniau ym mater 77.7.22.

115.7.22 RHIAN ELIN GEORGE C.G., Ardal Ni 2035

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i gynnis enwau'r Cynghorwyr Llywelyn Rhys a Selwyn Griffiths i fynychu'r gweithdy ym mis Medi.

116.4.22 AMANDA MURRAY C.G., Ymateb i 309.3.22 Toiledau Porthmadog

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

Gadawodd Cyng Llywelyn Rhys y cyfarfod

117.7.22 ANDREW BASFORD CYF.NAT.CYMRU, Diweddariad perygl llifogydd

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a'r Clerc i drefnu i Andrew Basford a John Meirion Davies i ddod i gyfarfod y Cyngor Tref ar Fedi 13 i roi diweddariad ar y sefyllfa yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

Dychwelodd Cyng Llywelyn Rhys i'r cyfarfod.

118.7.22 Materion Ariannol :

Derbyniadau :

CAE PAWB	Rhent	£	30.00
BHIB	Ad-daliad Primiwm Yswiriant	£	168.96
HSBC	Llog Banc Mai / Mehefin 2022	£	1.44
CYNGOR GWYNEDD	Incwm Meysydd parcio 2021	£	18,169.43

Roedd Cyng Carol Hayes yn dymuno cofnodi ei bodlonrwydd o weld fod y Cyngor Tref wedi derbyn £18,169.43 o incwm meysydd parcio.

➤ **Cymeradwyo archebu 2 set o badiau sbâr ar gyfer y Diffibrilwyr**

Penderfynwyd :- caniatâu i'r Clerc fynd ymlaen gyda'r archeb yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

Awdurdodwyd y tailadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Mehefin 2022	£ 51.36
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Mehefin 2022	£ 850.12
3	Marian Roberts	Ad-daliad am lungopi lliw o'r Adroddiad Blyneddol yn y Llyfrgell @60c y tudalen	£ 15.00
4	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Mehefin 2022	£ 216.88
5	Y Ganolfan	Cyfarfod Pwyllgor Llawn Mehefin 14	£ 40.00
6	Y Ganolfan	Cyfarfod anwytho Aelodau newydd 29.6.22	£ 20.00
7	Eisteddfod Genedlaethol	Ail gyfraniad tuag at Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023	£ 5,000.00
8	Un Llais Cymru	Cwrs Anwytho Cynghorydd Newydd Cyng Llinos Murphy 25.5.22	£ 17.50

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

119.7.22 Ceisiadau Cynllunio

Cais i osod byrddau a meinciau ar y palmant o flaen caffi Garreg Ddu, Bank Place (wedi ebostio 4.7.22)

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 20.45.

Marian Roberts

(Clerc)

Marian Roberts (Clerc/Clerk), 29 Maes Gerddi, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LE

Ffôn / Tel : 01766 513709

E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com